# Newyddion Bethlehem



www.gwe-bethlehem.org (trydar): @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Gwanwyn 2014

## Gŵyl Ddewi 2014




*Fel sydd wedi dod yn arferiad bellach, mae Bethlehem yn cynnal dau wasanaeth i ddathlu Gŵyl Ddewi. Ar y chwith fe welwch y rhai fu'n cymryd rhan yn yr oedfa fore Sul, Mawrth $2^{il}$. Y plant oedd yn asgwrn cefn yr addoliad tra bu'r oedolion, Glenys, Huw, Heulwen a Mair, yn cyflwyno eu hatgofion o ambell Ŵyl Ddewi o'r gorffennol.*

*Ar fore Sadwrn, Mawrth 1af, cynhaliwd oedfa fer,* ***ac isod fe gewch argraffiadau un ymwelydd â'r gwasanaeth hwnnw.***

Mae yna beth myrdd o weithgareddau yn digwydd yn ein prifddinas ar Ddydd Gŵyl Ddewi a'r orymdaith o'r Bae i'r Castell yn denu miloedd allan i'r strydoedd. Ond troi i mewn wnes i am ddeg y bore i gapel Bethlehem Gwaelod-y-garth lle'r oedd oedfa fer yn cael ei chynnal a gwahoddiad i unrhyw un i gyfrannu iddi yn ei ffordd ei hun.

Ar ôl i'r gweinidog, y Parchedig R Alun Evans, agor drwy ddefosiwn daeth nifer o aelodau ymlaen, un ar ôl y llall, yn gwbl ddigymell a phob un wedi dewis a pharatoi ei gyfraniad gan gyflwyno gweddïau ac amrywiaeth o ddarlleniadau. Annisgwyl iawn oedd gwrando ar gerdd Twm Morys "Darllen y map yn iawn", lle mae'r bardd yn ein hannog i ledu map ar lawr a "rhoi pin drwy bob un llan/ nes bod yna dyllau ym mhob man" a rhoi pin hefyd "yn y mannau lle'r aeth bendith sant/ yn ffynnon loyw yn y pant."

Sôn am sant a wnaeth cyfrannwr arall gan nodi'r olion a'r creiriau sydd yn Nanhyfer yn dystion fod yr efengyl wedi cael ei chyhoeddi yno gan Sant Brynach cyn belled yn ôl â'r chweched ganrif.

Tybed a feddyliodd Manon Steffan Ross wrth lunio'i hysgrif fer i rifyn cyfredol y cylchgrawn 'Golwg' y byddai'n cael ei darllen mewn oedfa ar Fawrth y cyntaf? Sgwrs yw hi rhwng crwt o'r enw Dewi a Non, ei fam, dros baned o goffi mewn caffi a rhyw "wyrth" fach yn digwydd rhwng y bachgen bach a henwr dall o'r enw Peulin yn ei gornel.

Mae'r gyfres o englynion "Gweddi dros Gymru" o waith y Prifardd J. M. Edwards mor berthnasol heddiw â phan ysgrifenwyd hwy ym mlynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf:

> "Arfau helgwn rhyfelgar – a wna ddyn
> yn ddiannedd, anwar
> O Dduw! Er mwyn dy ddaear
> A dyn a'i hil, cadw hi'n wâr."

Cyfraniad cwbwl hyfryd hefyd oedd yr un am ddarlun o waith yr artist Oswyn Davies, Tregaron, na lwyddodd i'w lawn gwblhau cyn cael ei oddiweddyd gan afiechyd. Llun ydyw sy'n dehongli pennill olaf emyn o waith y Parchedig Robert Owen, Llanllyfni. Daeth y darlun i feddiant un o'r teulu yn ystod y dyddiau diwethaf yma ac fe'i trysorir ganddo.

> "Dduw nef, gwna'n holl benaethiaid ni
> Yn dangnefeddwyr ynot ti."

A thrwy ganu'r geiriau yna y daeth yr oedfa i ben. Diolch am hanner awr ystyrlon a bendithiol i ddathlu ac i gofio mor gyfoethog yw cynhysgaeth ein hiaith a'n gwlad.

***Ymwelydd â Bethlehem***



**Naw llith a charol** ... ond dyma **ddeg** o leisiau ifanc Bethlehem fu'n cyfrannu i'r addoliad. Rhagor o luniau'r oedfa ar dudalen **10**.

**Suliau:**

# Mawrth – Rhagfyr 2014

*** (ond yn debygol o fod yn hyblyg am gyfnod – gweler isod)**

MAWRTH
2 Gwasanaeth Gwyl Ddewi
9 Y Parchg.Ddr. R. Alun Evans
16 Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
23 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
30 Y Parchg. Jeff Williams

EBRILL
6 Rhys ab Owen
13 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
20 (Sul y Pasg) - Oedfa Aelodau
27 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

MAI
4 Oedfa Cymorth Cristnogol
11 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
18 Oedfa Ardal- Gorll. Caerdydd
25 Y Parchg. Dafydd Owen

MEHEFIN
1 Y Parchg. Aled Edwards
8 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
15 Oedfa Ardal - Pentyrch
22 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
29 – Y Parchg. Robin Samuel

GORFFENNAF
6 – Oedfa ardal Creigiau
13 Sul y Cyfundeb (bore- Penarth)
Cymun yn yr hwyr (5.00) Gweinidog
20 Dim trefniant eto
27 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

AWST
3 Cymun yn Efail Isaf
10 Bethlehem
17 Efail Isaf
24 Bethlehem
31 Efail Isaf

MEDI
7 Dim trefniant eto
14 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
21 Cwrdd Diolch dan ofal yr Ysgol Sul
28 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

HYDREF
5 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
12 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
19 Y Parchg. Hywel Wyn Richards
26 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

TACHWEDD
2 Dim trefniant eto
9 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
16 Oedfa Ardal - Radur
23 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
30 Y Parchg. Owain Llyr Evans

RHAGFYR
7 Bore - Ymweld â Chartre'r Henoed;
Nos - Naw Llith a Charol
14 Bore - Ymarfer i'r Plant; Nos - Cymun
21 Gwasanaeth Nadolig y Plant
28 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

## Cyfeiriadau:

**Gweinidog:**
**Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,** ***Ffôn:*** 02920 520 854
***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net

**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones, Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

Rydyn ni gyd yn dymuno'n dda i R. Alun ar drothwy ei lawdriniaeth yn yr ysbyty. Er y bydd o'n ysu am ddychwelyd at ei ofalon, mae'n debygol y bydd ei feddyg yn mynnu i Alun gymryd pethau'n hamddenol am ychydig. Felly, ffoniwch Rhodri neu un o'r diaconiaid tra bydd Alun yn cael egwyl.


**Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:**

- June Lloyd, Radur – wedi colli ei mam yn Nhreorci.
- Anthony Evans, Yr Eglwys Newydd - wedi colli ei fam yn Ngheredigion.

**COFIWCH AM OEDFAON Y PASG**
Bore Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)
Sul y Pasg – Ebrill 20 - am 10.30 a.m.
**ac ymunwch yn yr ymarferion a gynhelir dan arweiniad Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd.**

# Bedydd JAC a GRUFFUDD

Ionawr 26ain, oedd dyddiad bedydd **Jac Llew**, mab **Mari a Gareth Williams**, a'r gweinidog, fel arfer, yn arwain y gwasanaeth. Mae Jac yn ŵyr i **Sian Osborne**, Yr Eglwys Newydd – a'i fam, Mari, wrth gwrs, yn un o blant Bethlehem.





Mawrth 9fed, oedd dyddiad bedydd **Gruffudd Llywelyn**, mab **Holly ac Alun Evans**, a'r Alun Evans arall, ein gweinidog, un waith eto'n arwain yr ordinhâd. Mae Gruffydd yn ŵyr i **Ken a Judith Evans, Pentyrch,**– a'i dad, Alun, yn un o blant Bethlehem.
Yn yr un oedfa, (fel gwelwch, chwith isod) daeth Holly, hithau, yn aelod yn Methlehem. Croeso, Holly!



## ... a chroeso hefyd i'r babis newydd!

- Dau ŵyr newydd i David a Kay Clement, Ffynnon Taf - mab i Bethan a Guto yn Llansannan, sef **Evan Clement Davies,** a mab i Lowri a Gwion yng Nghaerdydd, sef **Trystan Gwilym ap Rhys** brawd bach i Mabon.
- Wyres i Dilwyn a Marian Jones, Creigiau – merch i Anna a Stuart Townson, sef, **Elen Gwyn** –(cyfnither i Matthew, Manon, David, Andrew a Ffion).
- Ŵyr i Byron a Morwen Edwards, Creigiau, - mab i Sian a Martin, sef **Seth Isaac**, brawd bach newydd i Elsa Grug.

## LLONGYFARCHIADAU

... i Gwion, mab Alwyn ac Angharad, Ffynnon Taf, sydd wedi dyweddïo â Rhian Tomos, yn wreiddiol o Donteg, ond iddi wedyn symud i Langynnwr, Caerfyrddin, pan oedd hi'n blentyn.

... Geraint Huws, Ffwrnes Blwm, sydd wedi dyweddïo â Manon Humphreys o Bentre'r Eglwys. Mae Manon yn gweithio fel swyddog i'r 'Comisiynydd y Gymraeg' yng Nghaerdydd.

# ‘Grangetown’ ym Methlehem



Fe fydd y rhai craff yn eich plith wedi sylwi fod un emyn dôn ychwanegol bellach wedi ei chynnwys yn y cyfrolau “Caneuon Ffydd” sydd ym Methlehem. Fel y cyfeiriwyd yn ein rhifyn diwethaf, mae Ieuan Wyn (chwith) wedi cyfansoddi’r dôn ar eiriau Ann Griffiths ar gyfer criw’r Drws Agored. Fel y gwelwch yn y prif ddarlun uchod, roedd Ieu yn bresennol pan gafodd y gynulleidfa gyfle i ganu’r dôn am y tro cyntaf, dan arweiniad ein pedwarawd, Wyn, Heulwen, Delyth a Pheredur. (Isod, fe welwch Ieu hefyd yn ymuno yn Y Plygain)

---


## *Y Plygain*



Disgyblion Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth dan arweiniad Tania Wilson-Price yn ystod Gwasanaeth Plygain Bethlehem ar Ionawr 12, 2014. Gwelir rhai o’r cyfranwyr eraill isod ac ar y dudalen nesaf. [Ymddiheuriadau am ansawdd ambell lun - wrth osgoi defnyddio fflach yn y golau isel, nid yw pawb yn edrych cystal ag y dylen nhw! A golau sgrin yr I-pad sy'n rhoi'r wawl angylaidd dan ên Wyn Jones!]










**Rhagor o'r Plygain**







Camerâu ... Coginio? ... Ffasiwn? ... Cast lliwgar? ... na nid rhifyn o Pnawn Da na Heno - ond un arall o sgriptiau dyfeisgar Heulwen – "Prynhawn Heno"!













O'r Dwyrain y daeth y doethion - rhai'r cynhyrchiad a rhai portread yr arlunydd Anthony Evans, a welwyd ar glawr rhaglen y gwasanaeth Nadolig.
Ond, daeth gŵr doeth arall, o'r Gollewin y tro hwn, (Huw Ffash ei hunan) i gynghori'r actor isod ar sut i sylwebu ar wisgoedd. (Dichon i chi weld y gwersi ar Heno!)











... ac er nad oes gennym luniau o oedfa Fore'r Nadolig – teg cydnabod cyfraniad pawb gymrodd ran yn y gwasanaeth hwnnw hefyd - Aine, Marged Haf, Teulu Delwyn Sion, Gruff Cartwright, Anna Glyn, Ieuan Wyn, Hannah Roberts, Catherine Blythe a’r Gweinidog, Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans.

## NEWYDDION

Rydyn ni'n falch o weld **Joy Glyn**, Pentyrch, yn ein plith unwaith eto ar ôl ei llawdriniaeth ac yn dymuno adferiad llwyr a buan iddi.

Mae nifer o aelodau Bethlehem wedi cychwyn ar swyddi newydd yn ddiweddar:

- **Carys Huws**, Ffynnon Taf, wedi dechrau ei swydd gyntaf ar Gylchgrawn Ffasiwn yn Ninas Llundain.
- **Ifan Glyn**, Pentyrch, yn gweithio fel Swyddog Cyhoeddusrwydd i Gymdeithas yr Adeiladwyr (Master builders).
- **Dr Aled Huws**, Ffwrnes Blwm, wedi ei benodi yn Arbenigwr Meddygol yn Ysbyty Tywysog Charles, Merthyr Tudful
- ... a'i chwaer, **Dr Gwenan Huws**, wedi cael ei phenodi yn Arbenigwr Meddygol yn Ysbytai Gwasanaeth Iechyd Gwent.
- **Hywel Roberts**, Pentyrch, yn Swyddog Rhaglenni Mudiad 'Film Club Cymru'.
- **Jâms Powys**, ŵyr ein gweinidog a mab Rhys a Sian Powys, bellach wedi cymhwyso fel peilot, wedi ei benodi gan Easyjet i swydd ym Mhortiwgal.



Mae **Gwynn Angell Jones** am ddiolch i aelodau Bethlehem am eu haelioni at 'Help Jowaii'. Yn dilyn ei sgwrs ar fore Sul yn Ionawr, daeth ymron chwe chan punt i'r gronfa i brynu offer i'r ysbyty yn India.

Newyddion Ieuenctid Bethlehem



## Geraint yn galw

**Mae Geraint Huws, ein diacon ieuengaf, yn awyddus i glywed eich syniadau chi, yr aelodau ifanc, am weithgareddau posibl.**

Fe gofiwch i griw redeg o Twickehnham i Stadiwm y Milenwiwm llynedd ac y mae'n fwriad gan rai oedolion ifanc ymgymryd a her newydd eto eleni i godi arian tuag at elusen y capel. Felly dewch â syniadau iddo! Eisoes,mae rhai ohonoch yn brysur yn gweithio ar y stondin lyfrau ar Sul y Cymun, ac un awgrym gan Geraint oedd y byddech yn gallu cwrdd â'ch gilydd fel dosbarth ysgol Sul bob bore cymun. A dewch â rhagor o syniadau iddo rhag blaen!

**Y Cwrdd Merched**

## Lluniau a Botymau

I ddechrau'r flwyddyn newydd cawsom wledd yng nghwmni'r artist Anthony Evans. Dechreuodd ei sgwrs trwy son am y rhan a chwareuwyd gan ei gefndir yn meithrin cof gweledol, a'i fod yn gwybod yn dair ar ddeg oed taw artist oedd e am fod. Bu'r tipiau glo a fferm ei ddadcu yn ysbrydoliaeth i'w waith. Wedi derbyn hyfforddiant i fod yn athro a dysgu celf mewn ysgolion yn Sir Gâr, Y Rhondda ac Ysgol Glantaf, penderfynodd droi'n artist amser llawn. Nawr mae e'n gweithio mewn adeilad lle mae wyth artist â stiwdio yr un. Ei hoff amserau yw'r bore a'r hwyr pan fydd y cysgodion yn hir. Yn ogystal a gwrando ar y sgwrs hynod ddiddorol, cawsom y fraint o edrych ar enghreifftiau o'i waith.

Ym mis Chwefror cawsom gwmni Hannah Roberts. Wedi ychydig o'i hanes a'i chefndir, roedd Hannah wedi dilyn hanes ei bywyd wrth ddangos i ni nifer o fotymau oddi ar wahanol ddillad. 'Roedd ei mam yn gwnio ei dillad ac 'roedd wedi cadw'r holl fotymau o ddyddiau ysgol, dyddiau coleg a'i gyrfa fel actores. A chawson ni brynhawn difyr arall.

Cawn hanes sgwrs Mawrth 11eg, sef y wledd arferol yng nghwmni Alun, ein Gweinidog, yn ein rhifyn nesaf.

Ar Ebrill 8fed, gobeithiwn ymweld â chrochendy Nantgarw.

Ac i orffen y flwyddyn, fe fydd y wibdaith flynyddol ar Fai'r 13eg.

**CE.**

### Hwyl Fawr!



***Sara, Mari a Gwen Gibson – tair o'n ffyddloniaid ar eu bore olaf ym Methlehem cyn eu bod nhw'n symud fel teulu i Benrhyncoch. Bydd Sara a'i phriod Rhodri yn gweithio o Geredigion o hyn allan.***

***Dymuniadau da iawn iddyn nhw i gyd!***

*Yr Elusen Leol Eleni*

# Banc Bwyd Caerdydd



*Cofiwch ein bod yn derbyn rhoddion yn gyson i gronfa Banc Bwyd Caerdydd, sy'n Brwydro Newyn Cudd ac Adfer Gobaith.*
*Mae blychau yn y cyntedd.*

***Mae gwir angen:***

**Siwgr**
**Reis**
**Pwdin Sbwnj mewn tùn**

***Gweithgareddau i'w nodi yn eich dyddiadur***

Cynhaliwyd y pwyllgor elusen yn ddiweddar – maen nhw'n awyddus i chi gyd nodi'r dyddiadau isod:

**Mai 14 - Nos Fercher**
Cyngerdd gan Gôr Caerdydd/Plant Ysgol Gwaelod-y-Garth.

**Mis Mehefin/Gorffennaf**
Taith y gamlas gan Alwyn ac Angharad

**Gorffennaf 13 - nos Sul**
Swper Haf

**Medi/Hydref**
Noson Gwis

MAE CEFNOGAETH BETHLEHEM I'R ELUSENNAU WEDI BOD YN WYCH!

**DALIWCH ATI!**

*Dyma, er gwybodaeth, restr lawn o nwyddau fyddai'n dderbyniol ar unrhyw adeg ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd:*

- ***Llaeth (UHT ), Creision Brecwast ac Uwd***
- ***Cawl paced a chawl tun***
- ***Sudd Ffrwythau (UHT)***
- ***Saws Pasta***
- ***Tuniau pwdin reis neu sbwnj, Cwstard***
- ***Tomatos tun***
- ***Pasta, Reis, Lentils, Nwdls, Pecynnau Pasta a Saws, Couscous***
- ***Llysiau Tun***
- ***Tatws Mash paced/tatws mewn tun***
- ***Cig/Pysgod/Ffrwythau mewn tun***
- ***Siwgr***
- ***Bisgedi, bariau byrbryd***
- ***Olew Coginio***
- ***Jam***
- ***Bagiau Te a Choffi***
- ***Siocled.***

***Cofiwch hefyd am Apêl Haiti***

# Bore Coffi

i godi arian i gronfa Haiti

**Dydd Mawrth Ebrill 29ain**
**am 11am**
**yn nghartref Eluned Davies Scott ym Meisgyn.**

# Y Pwyllgor Bugeiliol

Mae'r canlynol wedi gwirfoddoli i gynrychioli'r aelodau ar y Pwyllgor Bugeiliol:-

**Judith Evans**
**Nia Jones**
**Arwel Ellis Owen**

Y nhw felly, ynghyd â'r diaconiaid canlynol, fydd yn ffurfio'r Pwyllgor:

**Eirlys Davies (Radur)**
**Huw Lloyd**
**Ian Hughes**



Noson y Naw Llith a Charol – mewn lluniau